# Newyddion Bethlehem

www.gwe-bethlehem.org (trydar): @GweBethlehem Gwaelod-y-garth Rhagfyr 2013

**Neges y Gweinidog**

# GWERTH DY GRYS




***Pan ddaeth Gruffydd Ellis i ledio'r emyn mewn oedfa fedydd ym mis Medi, doedd e na'r gweinidog fawr o feddwl mor fuddiol fyddai'r llun i gydfynd â'r erthygl ar y chwith! Ar y pryd roedd Gareth Bale newydd symud i Sbaen. (Gyda llaw, cwestiwn cwis i chi – beth ydi cysylltiad go-iawn Gareth Bale â Bethlehem? Mae'r ateb mewn cornel fach snêc o'r rhifyn hwn!)***

**Fe ŵyr y cyfarwydd mai ymadrodd mewn cyfres hir o benillion am feibl 1630 yw "gwerth dy grys."** Y Ficer Prichard, Rhys Prichard 'Yr Hen Ficer', a aned yn ôl pob tebyg yn Llanymddyfri yw awdur *Canwyll y Cymry*. Ynddo fe geir y penillion yma:

Gwerth dy dir a gwerth dy ddodre'n,
Gwerth dy grys oddi am dy gefen:
Gwerth y cwbwl oll fydd gennyd
Cyn y b'ech heb air y bywyd.

Mae'r Bibl bach yn awr yn gyson
Yn iaith dy fam i'w gael er coron:
Gwerth dy grys cyn bod heb hwnnw,
Mae'n well na thre dy dad i'th gadw.

Gwell nag aur, a gwell nag arian,
Gwell na'r badell fawr na'r crochan:
Gwell dodrefnyn yn dy letty,
Yw'r Bibl bach na dim a feddi.

Heddiw ddwaetha', fe ddaeth y postmon a chrys i'r tŷ hwn. Dyw e ddim wedi bod ar fy nghefen eto. Mae'n hongian yn y gegin. A chyda'r crys fe ddaeth tystysgrif, *Certificate of Authenticity*. Ar gefn y crys mae'r rhif 33. Oddi tan y rhif mae llofnod – Ben Davies.

Nid 'Ben Davies Pant-teg', Llywydd Undeb yr Annibynwyr yn 1928 ac enillydd Coron (ddwywaith) a Chadair yr Eisteddfod Genedlaethol. Nid 'Ben Davies Llandeilo' chwaith, Llywydd Undeb yr Annibynwyr 1947, y bu ei feibion Elwyn, Alun a Hywel yn ffigyrau amlwg ym mywyd cyhoeddus ac academaidd Cymru.

Llanc ugain oed yw'r Ben Davies yma a roddodd grys gwyn Yr Elyrch ar ocsiwn i godi arian i Blant mewn Angen y BBC. Crys Real Madrid Gareth Bale a ddenodd y sylw a'r swm ucha' ar yr ocsiwn. Ond crys clwb peldroed Abertawe oedd yn denu fy sylw i a dyna pam y cynigiais amdano.

Dyna fi wedi prynu anrheg Nadolig i mi fy hun. 'Gwerth dy grys ...' Na, nid hwn! Bydd ei wisgo yn gwireddu breuddwyd. Trueni na fyddai gen i'r ddawn i haeddu ei wisgo. A thrueni hefyd na byddwn i'n deilwng o wisgo sgidiau y ddau Ben fu'n Llywyddion Undeb yr Annibynwyr yn eu dydd.

Nadolig llawen a blwyddyn newydd llawn daioni i chi.

RAlun

*... a thra bo Alun yn dymuno'n dda i ni fel aelodau Bethlehem, gawn ninnau ddiolch iddo yntau am flwyddyn arall o'i wasanaeth fel gweinidog arnom. Fel gwyddoch, rai wythnosau'n ôl bellach, fe dreuliodd Alun ysbaid yn Ysbyty Bronglais a rydyn ni'n falch iawn o'i weld yn ôl yn ein plith, ac yn brysur, fel arfer.*

***Yr Elusen leol am eleni***

## Banc Bwyd Caerdydd

*Aeth y cyfan o gyfraniadau bwyd y Cwrdd Diolchgarwch i gronfa Banc Bwyd Caerdydd, sy'n Brwydro Newyn Cudd ac Adfer Gobaith. (Rhwng yr holl gapeli ac eglwysi lleol, daeth dros 11 tunnell fetrig i mewn adeg y Diolchgarwch). Bydd eu gofynion adeg y Nadolig yr un mor daer ac fe fyddan nhw'n casglu ger rhai o'r archfarchnadoedd. Cofiwch amdanyn nhw.*

## Suliau 2014

IONAWR
5 Y Parchg. Allan Pickard
12 Y Parchg. Ddr. R.Alun Evans
19 Gwyn Angell Jones -
Hanes Cronfa Jowai ac Ysbyty Shillong
26 Y Parchg. Ddr. R.Alun Evans

CHWEFROR
2 Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
9 Y Parchg.Ddr. R. Alun Evans
16 Y Parchg. Lona Roberts
23 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

MAWRTH
2 Gwasanaeth Gwyl Ddewi
9 Y Parchg.Ddr. R. Alun Evans
16 Y Parchg. Glyn Tudwal Jones
23 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
30 Y Parchg. Jeff Williams

EBRILL
6 Rhys ab Owen
13 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
20 (Sul y Pasg) - Dim trefniant eto
27 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

MAI
4 Oedfa Cymorth Cristnogol
11 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
18 Oedfa Ardal
25 Y Parchg. Dafydd Owen

MEHEFIN
1 Y Parchg. Aled Edwards
8 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
15 Oedfa Ardal
22 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
29 - Dim trefniant eto

GORFFENNAF
6 - Dim trefniant eto
13 Sul y Cyfundeb (bore- Penarth)
Cymun yn yr hwyr (5.00) Gweinidog
20 I'w drefnu
27 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

AWST
3 Cymun yn Efail Isaf
10 Bethlehem
17 Efail Isaf
24 Bethlehem
31 Efail Isaf

MEDI
7 Dim trefniant eto
14 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
21 Oedfa Ardal
28 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

HYDREF
5 Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
12 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
19 Y Parchg. Hywel Wyn Richards
26 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

TACHWEDD
2 Cwrdd Diolchgarwch
9 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
16 Oedfa Ardal
23 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
30 Y Parchg. Owain Llyr Evans

RHAGFYR
7 Bore - Ymweld â Chartre'r Henoed;
Nos - Naw Llith a Charol
14 Bore - Ymarfer i'r Plant; Nos - Cymun
21 Gwasanaeth Nadolig y Plant
28 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

***Enillydd Tlws y Cerddor***

# Harmonïau gafaelgar a hudol



***Y fedal i "Fi"***

Rydyn ni'n hen gyfarwydd a gweld ambell lun o **"Ieu",** sef y gweithgar a cherddgar **Ieuan Wyn**, yn y cylchgrawn hwn wrth gofnodi rhai o weithgareddau Bethlehem. Ond dyma fe ar lwyfan Prifwyl Dinbych ar ôl derbyn Tlws y Cerddor.

Darn Corawl digyfeiliant seciwlar rhwng pedwar a saith munud oedd y dasg – a dyfarnodd y beirniaid, Sioned James ac Owain Llwyd, mai "Ieu" oedd yn ben am waith o'r enw "Cariad".

Yn eu geiriau hwy roedd yr '...harmonïau'n gyfoethog ac mae dynameg amrywiol y darn yn gofyn am gryn ddisgyblaeth leisiol. ... hynod o addas ar gyfer corau'r unfed ganrif ar hugain, ac am ei harmonïau gafaelgar a hudol, rydym yn falch o gyhoeddi teilyngdod... dyfarnwn y Tlws i "Fi".'

Llongyfarchiadau Ieu! Tybed oes gen ti fersiwn syml i gôr y capel?

[Gyda llaw, mae Ieuan hefyd wedi cyfansoddi tôn, 'Grangetown,' i un o emynau Ann Griffiths ar gyfer criw y Drws Agored.]


**Cyfeiriadau:**

**Gweinidog:**

**Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,** ***Ffôn:*** 02920 520 854

***e-bost:*** ralun.evans@virgin.net

**Ysgrifennydd: Rhodri-Gwynn Jones, Ffôn:** 029 20 89 00 39

***e-bost:*** rhodrigj@tiscali.co.uk


## Oedfaon Rhagfyr

**Rhagfyr 8 - Cymun** yn yr hwyr (5.00)
(Dim oedfa'n y bore –ymarferion i'r plant)

**Rhagfyr 15** –**(11.00) - Carolau** yng Nghartref Hillcroft, 9/11 Howells Crescent, Llandaf CF5 2AJ
(**5.00) – Naw Llith a Charol** - yna ymuno â rhieni Ysgol Gynradd Gwaelod-y-garth i ganu carolau yn iard yr ysgol. (6.30)

**Rhagfyr 22** – Bore Sul – Cyflwyniad y capel o **Stori'r Geni** – (10.30)

**Rhagfyr 25 – Gwasanaeth Bore Nadolig (10.00)**

**Rhagfyr 29 – Oedfa** – Y Parchg Dafydd Owen (10.30)



## Tri bedydd a thair priodas



Croeso mawr i dri bach newydd sydd wedi eu bedyddio ym Methlehem. A llongyfarchiadau i dri o aelodau ifanc yr eglwys sydd wedi priodi ers ein rhifyn diwethaf.




***Uchod:***
***Tachwedd 10 - bedydd ELIS MORGAN, mab Aled a Sara Davies.***

***Uchod:***
***Hydref 27 - bedydd BETSAN HAF, merch Luned a David Walters (heb anghofio Lea Mai)***



***Chwith:***
***Medi 22 – bedydd HEDD TRYFAN, mab Arwyn a Kate Jones***



***Uchod:***
***Gwern Llywelyn, Ffynnon Taf, a'i briod, Lowri Wyn Jones, o Donteg, ar ddydd eu priodas ar Awst 23 ym Methlehem.***

***Isod:***
***Robert Lamb , Llantrisant, a'i briod, Simela Tsavlidis ar ôl eu priodas yng Nghapel Cymraeg Canol Llundain ar Orffennaf 27.***





***Uchod:***
***Aled Huws, Ffwrnes Blwm, a'i briod, Lisa Wyn Dafydd, Llanddew ger Aberhonddu, ar ôl eu priodas yn Eglwys Dewi Sant, Llanddew ar Awst 31.***





**Uchod:** rhai o fynychwyr y Swper Haf – noson o adloniant ac achlysur cyflwyno siec i'r elusen am y flwyddyn.

**Ar y chwith:** Rhai o'r gwleddwyr ifanc a pheth o'u gwaith celf ar Ambiwlans Awyr Cymru.

## Dros £5.500 i'r ambiwlans awyr



Dyma'r swm uchaf erioed i Fethlehem ei gasglu at elusen unigol. **Ar y chwith:** Marian Evans yn cyflwyno'r siec i Catrin, cynrychiolydd Ambiwlans Awyr Cymru - penllanw nifer o weithgareddau mawr a llai dan arweiniad. y Pwyllgor Cristnogaeth Ymarferol. (Mae Marian, gyda llaw, newydd ildio ei gofalon fel diacon a rydyn ni'n diolch yn fawr iddi am ei holl waith.

**Isod:** Côr y Swper Haf







**Rhai o leisiau,**
**wynebau**
**a chlocsiau'r**
**swper !**











# NEWYDDION

### *Rydyn ni'n cydymdeimlo â'r canlynol:*

**Rhian Huws** a'r teulu, Ffwrnes Blwm – Rhian newydd golli ei mam (a chyn hynny wedi colli chwaer yng nghyfraith).

**Gwawr Owen a Huw**, Yr Eglwys Newydd – Gwawr wedi colli ei mam.

**Dennis a Luned Davies-Scott**, Meisgyn – Dennis wedi colli ei frawd.

**John ac Elen Lewis**, Radur – John wedi colli ei frawd.

**Nerys Williams**, Radur, wedi colli modryb.

### *Adferiad buan*

Da deall bod **Marian Evans,** Radur, **Vi Jones** ac **Eira Williams,** Pentyrch, yn gwella ar ôl eu cyfnodau o driniaethau diweddar.

### *Swyddi Newydd*

Mae nifer o aelodau Bethlehem bellach wedi hen setlo yn eu swyddi mewn ysgolion newydd: **Fflur Harding Jones** (yn Nant Ceubal), **Catrin Osborne** (ym Mhen y Garth), **Betsan Thomas**, (ym Mhen y Pil), **Sioned Catrin Scott**, (Brackley, Swydd Northampton) ac **Eirian Samuel** (Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern).

### *Ac i gloi...*

Mae **Owen John, Llysfaen** wedi dyweddïo â Lois Elenid Roberts o Lanfairtalhaearn. Llongyfarchiadau iddyn nhw!

Mae'r dramodydd a'r awdur dyfal **Emyr Edwards** wedi cyhoeddi cyfrol arall - 'Perfformio' - Stori'r Perfformiwr ar lwyfan y theatr Gymraeg".

..Ac yn awr – yr ateb i'r pos bach ar y dudalen flaen. Beth ydy'r cysylltiad rhwng **Bethlehem** â **Gareth Bale**? Yr ateb? Ewyrth y peldroediwr enwog sydd bellach yn cadw'r lawnt a'r tir o'n cwmpas yn daclus!




*Pump o'r rhedwyr heini fu'n codi arian mewn ras gyfnewid bob cam o Twickenham i Stadiwm y Mileniwm er budd yr elusen leol, Ambiwlans Awyr Cymru: (o'r chwith) Anwen Lewis, Aled Davies, Geraint Passmore, Catrin Passmore a Carys Osborne. (Doedd dau arall o redwyr Bethlehem, Rhodri Gomer Davies a Geraint Huws, ddim ar gael i'r camera!) Fe godwyd £2000 – oedd yn werth £2445 drwy "Gymorth Rhodd / Gift Aid".*



"Mewn un bore Sul, mae hi wedi bod yn Russell, Dudley a Bill Gates!" – dyna ddisgrifiad Rhodri Gwynn o gyfraniad Heulwen Jones i'r Cwrdd Diolchgarwch. Roedd yn ddisgrifiad digon teg – gan fod ganddi gynnyrch gardd, torth o fara cartref a chyflwyniad ar y cyfrifiadur ar gyfer ei chyflwyniad i'r plant ar yr emyn "Tu ôl i'r dorth mae'r blawd".
***Isod:*** Y plant fu'n cymryd rhan yn y Cwrdd Diolch.



# Huw'n brasgamu i'r brig!




**Daeth y rhedwr rhyngwladol Huw Roberts i'r brig yn Ras y Loteri Genedlaethol yn Llundain trwy ennill y categori oedran o 55-60 gyda sprint fawr o gwmpas y trac Olympaidd mewn ras lle roedd 12,500 o gystadleuwyr.**

Mae Huw, sy'n llysgennad Sefydliad Prydeinig y Galon yng Nghymru, eisoes wedi codi £900 at yr achos ac eisiau cynyddu'r swm i dros £1,000.

"Rwyf wedi derbyn cefnogaeth ryfeddol, yn enwedig un dymuniad da wrth ffrind ysgol sydd wedi dioddef salwch mawr am nifer o flynyddoedd a ysgrifennodd 'Gwerthfawrogir dy ymdrech yn fawr gan bawb sy'n gwybod beth yw diodde'."

Gellir danfon rhoddion i: www.justgiving.com/huwrobertspilgrimageforpeace neu i Sefydliad Prydeinig y Galon, 6 Heol Alfreda, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2EH.

Medd Huw, "Yr oedd yn deimlad rhyfeddol i redeg yn gyflym iawn yn y lap olaf ar y trac. Enillais fy nghategori o 3 eiliad yn unig ac yr wyf yn hynod o falch fy mod wedi rhedeg yn galed yr holl ffordd hyd ddiwedd y ras."

**Holiadur Bethlehem**

## Golwg ar rai o'ch awgrymiadau

Diolch i bawb a wnaeth ymateb i'r Holiadur yn gynharach eleni.
Cafwyd nifer o awgrymiadau defnyddiol y bydd y Diaconiaid yn edrych yn fwy manwl arnynt yn y dyfodol agos, ond dyma brif gasgliadau'r Holiadur:

- Dylid paratoi strategaeth i gynyddu'r niferoedd sy'n mynychu ar y Sul, yn enwedig pan nad yw'r Gweinidog yn bresennol.
- Sicrhau delwedd ffres i'r wefan.
- Dim ychwanegu pellach ar haenau rheoli'r eglwys
- Dim angen ychwanegu at nifer y cyfarfodydd yn yr eglwys (ar y Sul nac yn ystod yr wythnos)
- Troi ambell i oedfa yn fath o "Ysgol Sul" ar gyfer oedolion, neu rannu'n grwpiau trafod
- Edrych yn fanwl ar yr hyn sy'n digwydd mewn eglwysi eraill yn y cyffiniau a thu hwnt
- Cynnal dau Gwrdd Eglwys yn ystod y flwyddyn a sicrhau bod cyswllt gyda'r eglwys gan bawb o'r aelodau a chyfeillion
- Blwch syniadau ar gyfer yr aelodau a chyfeillion

Cymysg oedd y syniadau ar rol a sut i ddenu a chadw'r plant a'r ieuenctid a diddordeb yng ngweithgarwch yr eglwys.
Cymysg hefyd oedd yr ymateb ar sut i geisio gwell cyswllt rhwng yr eglwys a'r pentref, ac 'roedd pryderon beth fyddai'r effaith ar y Gymraeg pe tae oedfaon Saesneg yn cael eu cynnal yn yr adeilad.
Mae'r defnydd o'r dechnoleg "newydd" yn amlwg yn gofidio ambell un, er bod defnydd achlysurol i'w ganmol gan eraill.

Rhodri Gwynn (ysg)

## CROESO i Gwilym, Eira a Llion



***Ar Fedi 22, bu Alun yn derbyn tri aelod newydd i'n plith – Gwilym ac Eira Williams, Pentyrch, erbyn hyn (ond ynghynt o Geredigion) a Llion ap Penri, Sain Ffagan (gynt o Feirionnydd).***

## ... a chroeso hefyd i'r babis!


Mae sawl aelwyd wedi cael achos i lawenhau wrth i fabanod gyrraedd yn nhymor yr hydref:

- Ganed efeilliaid i Carys a Michael Spicer – Ioan Taliesin a Robin Llywelyn - wyrion cyntaf Eirlys a Steve Lamb, Llantrisant.
- Ganed Tomos Gruffydd John Green, mab cyntaf Esyllt a Richard, wyr bach cyntaf i Eirlys Davies yn Radur.
- Ganed Nel Griffith, merch gyntaf Elin a Hywel, Grangetown, a'r pumed o wyrion Margaret ac Ifan Roberts, Pentyrch.
- Ganed David Stewart Thomas Lloyd i Angharad a Benjamin, wyr bach newydd i Huw a June Lloyd, Radur.

**Y Cwrdd Merched**

### *Tymor newydd, pynciau newydd ...*

Agorwyd y tymor gyda phrynhawn arbennig yng nghwmni Ifan a Margaret Roberts. Buont yn rhoi hanes ffenestri lliw eglwys fechan Sant Gwenllwyfo, ger Amlwch, yn eu ffordd ddihafal nhw. Ym mis Hydref cawsom amser difyr dros ben yn gwrando ar Kay Clements a Menna Bassett yn olrhain hanes eu magwraeth, eu gyrfaoedd a'u teuluoedd.
Wedyn daeth Rhiannon Gregory atom i son am ei nofel "Aderyn Brith" a dyna beth oedd gwledd o sgwrs. Tymor diddorol dros ben, a nawr edrychwn ymlaen at glywed Delyth Evans yn agor trafodaeth ar arferion y Nadolig.




### Apêl Difrod Stormydd Haiyan ar Ynysoedd Pilipinas

**Os nad ydych chi eisoes wedi cyfrannu i'r gronfa lansiwyd gan elusennau DEC, yna beth am ystyried ei roi drwy gasgliad Bethlehem. Fel sy'n arferol, pan fydd argyfwng fel hyn, mae Bethlehem yn anfon swm ar ei union a chasglu rhoddion wedi hynny. Mae £1000 wedi ei gyfrannu yn enw'r eglwys, a gallwch roi eich cyfraniad i'r trysoryddion, neu drwy'r casgliadau arferol yn yr oedfaon. A chofiwch am werth "Cymorth Rhodd / Gift Aid" lle gellir manteisio ar ad-daliad treth incwm i chwyddo'r gronfa.**

### CANU PLYGAIN

Bethlehem, Gwaelod-y-garth
Pnawn Sul
Ionawr 12
am 4.30
Ffurfiwch barti! Canwch unawd!